# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_27_11_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Ben Arnold, Cynghorwr Polisi, Addysg Uwch Cymru**<br>**Dr David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**<br>**Professor John Hughes, Prifysgol Bangor**<br>**Celia Hunt, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**<br>**Stephanie Lloyd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru**<br>**Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**<br>**Kieron Rees, Swyddog Polisi a Chynrychiolaeth, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr**<br>**Amanda Wilkinson, Addysg Uwch Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Jones (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Tystiolaeth gan Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro John Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Bangor, Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Addysg Uwch Cymru, Ben Arnold, Cynghorwr Polisi i Addysg Uwch Cymru,
Dr David Blaney, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Celia Hunt, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg a Chyllid, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ynghylch cyllido addysg uwch.

**Camau gweithredu:**

2.1 Cytunodd Addysg Uwch Cymru i anfon gwybodaeth ychwanegol ynghylch:

- Data ar gymhariaethau rhanbarthol
- Nifer y myfyrwyr AAB neu well sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor
- Faint yn llai o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Data ar werth am arian o ran myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru

2.2 Cytunodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i anfon gwybodaeth ychwanegol ynghylch:

- Y tueddiadau o ran myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr (pan fo'r wybodaeth ar gael)
- Nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

## 3 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Tystiolaeth gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Stephanie Lloyd, Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru a Keiron Rees, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, ynghylch cyllido addysg uwch.

**Camau gweithredu:**

2.1 Cytunodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru i anfon gwybodaeth ychwanegol ynghylch dadansoddi gwaith ymchwil sydd i ddod ar gymorth i fyfyrwyr, pan fo hynny ar gael yn y flwyddyn newydd

## 4 Papurau i'w nodi
4.1 Nodwyd y papurau.

4.1 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15: Llythyr gan Angela Burns AC

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Trafod y dystiolaeth a gafwyd
6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad i gyllido addysg uwch.

## 7 Y Bil Tai (Cymru)
7.1 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i wahodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel y gallai'r Aelodau ei holi ynghylch materion ariannol y Bil.

## 8 Ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i Gomisiwn Silk Rhan 1
8.1 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i wneud gwaith pellach mewn perthynas â hyn.